Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Penmachno
## Penmachno
## Betws-y-Coed
## Conwy
## LL24 0PT

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Penmachno wedi ei lleoli yng nghanol pentref Penmachno tua phedair milltir o Fetws-y-coed yn Sir Conwy. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion 3-11 oed. Mae 41 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys pedwar o oed meithrin. Mae dau ddosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 20% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mawrth 2009. Ers yr arolygiad, mae newid sylweddol wedi bod i'r staffio. Mae'r pennaeth mewn gofal yn ei swydd ers Medi 2013. Yn ogystal â'r pennaeth, sydd â gofal dosbarth y Cyfnod Sylfaen am bedwar diwrnod yr wythnos, mae un athrawes amser llawn ac un rhan amser. Penodwyd y ddwy athrawes ym Medi 2015.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Penmachno yn 2015-2016 yw £5,056. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Conwy yw £9,616 a'r lleiafswm yw £3,227. Mae Ysgol Penmachno yn y 13eg safle o'r 57 ysgol gynradd yn Sir Conwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod bron bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda ar draws y meysydd dysgu a bod llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol
- O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n fuan a'r mwyafrif ohonynt, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd gan newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais a chroesawgar
- Bod athrawon yn darparu ystod ddiddorol o brofiadau dysgu sy'n ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion
- Bod i'r ysgol ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel
- Bod yr amgylchedd dysgu yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon
- Bod partneriaethau buddiol gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill

Fodd bynnag:

- Nid oes digon o gynnydd ym medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- Nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig a'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2
- Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol yn is nag ysgolion tebyg
- Nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn yng nghyfnod allweddol 2
- Nid yw arferion asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn wedi ei seilio ar godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl
- Bod yr holl staff yn cydweithio'n llwyddiannus i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy
- Bod yr ysgol yn gweithredu nifer o strategaethau i wella'r ddarpariaeth er mwyn codi safonau disgyblion

- Bod y llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- Proses hunanarfarnu effeithiol sy'n gwneud defnydd da o dystiolaeth gadarn i adnabod blaenoriaethau gwella addas
- Bod cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer gwella safonau dysgu a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau siarad ac ysgrifennu estynedig disgyblion yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Parhau i wella presenoldeb

A3 Yng nghyfnod allweddol 2, sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu a rhifedd ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod yr athrawon yn darparu her gyson i'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A5 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg, sydd yn newydd i lawer ohonynt. Mae bron bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yng nghyfnod allweddol 2.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan. Mae llawer ohonynt ar draws y cyfnod yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg gan ddefnyddio ystod eang o eirfa briodol sy'n cyd-fynd a'u gwaith a'u themâu dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn siarad am eu gwaith yn gynyddol hyderus yn y Gymraeg, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Er hyn, mae ystod geirfa a chywirdeb mynegiant Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2 yn amrywio'n sylweddol. Nid yw llawer o ddisgyblion, yn arbennig y disgyblion mwy galluog, yn cyfrannu'n ddigon estynedig wrth ateb cwestiynau yn Gymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac effeithiol yn Saesneg gan ddefnyddio geirfa estynedig. Mae'r mwyafrif yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall yn wrth drafod eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod ei hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar goedd yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg ac yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth, er enghraifft i gefnogi eu gwaith ar y planedau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda, er enghraifft wrth iddynt ddysgu am ddatblygiad cestyll lleol yn y Canol Oesoedd.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ansoddeiriau a chymariaethau. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Mae medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn datblygu'n briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fwriadus mewn gwahanol ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu dadleuon ar ynni adnewyddol ac wrth ysgrifennu deialog rhwng cymeriadau o chwedlau Cymru. Mae'r mwyafrif yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol gan atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er hyn, nid oes digon o gynnydd yn eu defnydd o'u medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid yw cyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion yn gyson dda yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth fesur pellter mae car yn teithio ar arwynebeddau amrywiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol gywir wrth drafod eu gwaith, a gall y rhan fwyaf drafod eu targedau mathemateg yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth dda o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig mewn gwersi mathemateg yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data, er enghraifft wrth ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd i faint eu cysgod dros gyfnod. Er hyn, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon aml nac yn ddigon effeithiol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae bron bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni cystal ag y gallent, yn enwedig yng nghyswllt eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio'n fawr dros gyfnod o bedair blynedd ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yr ysgol wedi tueddu ei gosod yn y 25% isaf yn y pedwar pwnc.

### Lles: Digonol

Mae bron bob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i syniadau'r cyngor ysgol. Mae'r aelodau yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn trafod ac yn mynegi barn yn ddeallus ar ddatblygiadau amgylcheddol yn yr ardal.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr ysgol yn is nag ysgolion tebyg. Mae ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae bron bob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau gwaith priodol sy'n bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn ysgogol ac yn meithrin dysgwyr annibynnol yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau dysgu sy'n ymateb i anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o ystyriaeth i anghenion yr ystod eang o allu ac oedran o fewn y dosbarth.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i blethu'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd i weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd mewn amrywiol weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n datblygu a hyrwyddo eu gwybodaeth o ddiwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion werthfawrogi gwaith awduron ac arlunwyr o Gymru ac er mwyn cyfrannu'n llwyddiannus yng ngweithgareddau'r Urdd.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn caffael ymwybyddiaeth dda o faterion cynaliadwyedd trwy eu gwaith trylwyr wrth ailgylchu a datblygu'r gerddi. Mae prosiectau'r ysgol ynglŷn â gwledydd tramor fel Zambia a chynllun rhyngwladol yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

## Addysgu: Digonol

Mae athrawon yn llwyddo i feithrin a chynnal perthynas waith dda rhyngddynt â'r disgyblion, ac yn creu awyrgylch dysgu cynhaliol yn y gwersi. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol briodol ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r gweithgareddau dysgu yn ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion.

Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac mae cyflymder y gwersi'n dda. Maent yn rhoi blaenoriaeth pwrpasol i ddatblygu medrau allweddol llythrennedd a rhifedd y disgyblion ac mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn holi'r plant yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig.

Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o ystyriaeth i lefelau gallu gwahanol y disgyblion. Nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn meithrin medrau dysgu annibynnol ac yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu'r gwersi ac maent yn cynnig adborth gwerthfawr iddynt yn amserol. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Lle mae'r marcio yn fwyaf effeithiol, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir iddynt ar sut i wella'r gwaith. Er hyn, nid yw arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol, sydd yn cyfrannu at wella deilliannau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles yr holl ddisgyblion yn dda. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion, er enghraifft yn y Clwb Hwyl wedi oriau ysgol. Mae gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned, fel y gwasanaethau yn y pentref, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r ysbryd addolgar sy'n nodweddu'r addoli ar y cyd boreol yn gyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi cyfraddau presenoldeb, sydd eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

Mae'r berthynas waith dda sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau a gwasanaethau arbenigol yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion penodol. Enghraifft o hyn yw'r cysylltiad gyda gwasanaeth y therapydd lleferydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r athrawon yn defnyddio prosesau trwyadl i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae'r gynhaliaeth unigol ddyddiol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y disgyblion. Mae'r targedau clir a chyraeddadwy i ddisgyblion yn eu cynlluniau addysg unigol yn cysylltu'n effeithiol â'u targedau yn y dosbarth. Mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus gydag ethos cartrefol a chynhwysol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol

yn effeithiol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn ystyried cyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Lleolir yr ysgol ar safle braf ac mae ansawdd yr adeilad o safon dda. Mae'n cynnig digon o le a gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau awyr agored i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen. Caiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus. Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu diogel a deniadol ac mae arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion. Mae ardaloedd allanol amrywiol yr ysgol, sy'n cynnwys gardd lysiau ac ardal natur, yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth mewn gofal weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae ansawdd yr arweiniad a gynigir wrth ledaenu'r weledigaeth hon yn sicrhau cyfeiriad clir a phwrpasol i'r ysgol. Mae'r disgwyliadau uchel hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyfredol yr ysgol.

O ganlyniad, mae gan yr holl staff erbyn hyn, ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gydweithio llwyddiannus. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau. Mae'n rhy gynnar i weld gwir effaith y gyfundrefn arweinyddiaeth hon ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff yn effeithiol i drafod cynllunio, blaenoriaethau a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a pherfformiad disgyblion. Mae'r trefniadau'n dechrau cyfrannu'n briodol at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'i dyletswyddau'n gydwybodol. Mae'r aelodau yn meddu ar wybodaeth drylwyr am ddata perfformiad a chryfderau'r ysgol ac o'r meysydd i'w datblygu. Mae eu hymweliadau â'r ysgol yn gymorth i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol, yn eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at hunanarfarnu, ac yn sicrhau rôl fwy heriol yn y prosesau.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw da yng nghynlluniau gwaith cyfredol yr ysgol ac mae mireinio egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi arwain at gynnydd yn neilliannau'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol systemau hunanarfarnu effeithiol sydd wedi'u hymsefydlu'n gadarn mewn amser byr. Mae'r broses hunanarfarnu'n drylwyr ac wedi'i seilio ar dystiolaeth

uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth a dadansoddi data yn fanwl. Mae’r strategaethau hyn eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd amlwg ers dechrau’r tymor. Mae’r holl staff yn cyfrannu’n llawn at y broses arfarnu. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhandeiliaid eraill yn effeithiol ac yn gweithredu ar y casgliadau, er enghraifft wrth sefydlu’r Clwb Hwyl.

Mae deilliannau’r gweithdrefnau arfarnu yn cael eu dadansoddi ac yn cael eu defnyddio’n fwriadus i arwain prosesau cynllunio strategol yr ysgol. Mae’r adroddiad yn cynnig asesiad cywir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn cysylltu’n agos â’r adroddiad hunanarfarnu gyda’r blaenoriaethau’n canolbwyntio’n glir ar wella safonau dysgu a lles disgyblion. Mae cynlluniau’n nodi targedau mesuradwy gydag amserlen, cyfrifoldebau staff a deilliannau tymor byr a thymor hir. Mae ffocws clir ar ddatblygu medrau disgyblion. Mae’r camau gweithredu eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau, er enghraifft darllen bechgyn sy’n tangyflawni a safon ysgrifennu ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae’n llwyddo i sefydlu ethos agored a chroesawgar trwy ddatblygu cysylltiadau effeithiol gyda holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad cryf y rhieni i nodau a gwerthoedd yr ysgol. Mae’r cyllid sylweddol sy’n cael ei gyfrannu gan gyfeillion yr ysgol yn darparu adnoddau ychwanegol ac yn cefnogi gwariant ar gyfer ymweliadau.

Mae’r ysgol yn hybu cysylltiadau cadarn ag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau er budd addysg y disgyblion. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth unigolion o’r gymuned i gyfrannu o’u profiad a chefnogi gweithgareddau’r disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu’r ardd natur.

Mae cysylltiad yr ysgol gyda gwlad yn Affrica yn ehangu gorwelion y disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o wahaniaethau mewn diwylliannau ac arferion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda’r cylch meithrin i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos â’i chlwstwr o ysgolion i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae’r cydweithio agos gyda’r ysgol uwchradd yn hwyluso’r broses o bontio a throsglwyddo ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae trefniadau cyllidol trylwyr a gwariant effeithlon wedi'u cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn rheolaidd ac mae defnydd effeithiol o'r grantiau amrywiol er mwyn cefnogi disgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau hyn eu rheoli'n dda. Mae'r cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth gadarn sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae'r pennaeth mewn gofal yn trefnu hyfforddiant perthnasol i gyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref ac yn rhan o nifer o rwydweithiau sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Mae staff yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae'r cydweithio llwyddiannus i ddatblygu strategaethau o fewn y clwstwr, fel tasgau rhesymu rhifedd a chodi safonau llythrennedd bechgyn, yn enghraifft dda o hyn.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau dysgu safonol ac mae athrawon yn paratoi adnoddau diddorol eu hunain. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i ysgogi'r disgyblion. Gwna'r staff ddefnydd llawn o gyfleusterau'r ysgol i hyrwyddo'r dysgu. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd naturiol lawn o'r ardal tu allan i ddatblygu a hybu medrau a phrofiadau'r disgyblion ar draws y meysydd dysgu.

O ran deilliannau disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 19 | 19<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 19 | 19<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 19 | 19<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 19 | 18<br>95%<br>97% | 1<br>5%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 19 | 19<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 19 | 19<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 19 | 19<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 19 | 19<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 19<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 19 | | 19<br>100% | 0<br>0% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | | 95% | 5% | | |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 19 | | 18<br>95% | 1<br>5% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | | 77% | 23% | | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 19 | | 18<br>95% | 1<br>5% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 84% | 16% | | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | | 18 | | 14<br>78% | 4<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | | | 64% | 33% | 3% | 1% | | | |
| My child likes this school. | | 20 | | 15<br>75% | 5<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | | | 73% | 25% | 1% | 0% | | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | | 19 | | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | | | 73% | 26% | 1% | 0% | | | |
| My child is making good progress at school. | | 19 | | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | | | 62% | 34% | 3% | 1% | | | |
| Pupils behave well in school. | | 19 | | 12<br>63% | 7<br>37% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 48% | 47% | 4% | 1% | | | |
| Teaching is good. | | 18 | | 12<br>67% | 6<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | | | 62% | 36% | 2% | 0% | | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | | 19 | | 14<br>74% | 5<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | | | 65% | 34% | 1% | 0% | | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | | 18 | | 10<br>56% | 8<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | | | 50% | 42% | 6% | 2% | | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all children fairly and with respect. | 19 | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 20 | 12<br>60% | 7<br>35% | 1<br>5% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 20 | 14<br>70% | 6<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 20 | 10<br>50% | 8<br>40% | 2<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 19 | 12<br>63% | 5<br>26% | 1<br>5% | 1<br>5% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 19 | 13<br>68% | 6<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 12<br>67% | 5<br>28% | 1<br>6% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 11<br>61% | 7<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Llinos Mary Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.